Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 42/2025

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2025

# Uwchgynhadledd ymddygiad: arolwg o ddarparwyr addysg a staff cymorth

## 1. Cefndir

1.1 Mae athrawon yng Nghymru wedi gweld cynnydd amlwg mewn ymddygiadau sy'n heriol ac yn tarfu ar eraill mewn ysgolion. Mae'r ymddygiadau hyn yn amrywio o herio geiriol lefel isel a tharfu parhaus ar eraill yn yr ystafell ddosbarth i ddigwyddiadau mwy difrifol fel ymosodiadau corfforol. Mae ymddygiad o'r fath nid yn unig yn llesteirio dysgu disgyblion eraill ond hefyd yn rhoi cryn straen ar les staff, yn cynyddu eu llwyth gwaith, ac yn gwthio gallu ysgolion i reoli ymddygiad yn effeithiol i'r eithaf.

1.2 Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, trefnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Uwchgynhadledd Ymddygiad Llywodraeth Cymru i ddod ag ystod eang o randdeiliaid o bob rhan o'r sector addysg at ei gilydd. Mae'r gwahoddedigion yn cynnwys Penaethiaid, gweithlu ysgolion, llunwyr polisi, Awdurdodau Lleol ac undebau addysgu.

1.3 Cynhaliwyd ymarfer casglu data i helpu i lywio trafodaethau yn yr Uwchgynhadledd. Roedd hyn yn cynnwys dylunio a dosbarthu arolwg byr i ymchwilio i brofiadau a phryderon darparwyr addysg a staff cymorth ynghylch ymddygiad dysgwyr.

1.4 Mae'r bwletin ymchwil hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau pennaf gan ddarparwyr addysg a staff cymorth mewn ysgolion neu leoliadau ynglŷn â:

- Newidiadau sylweddol mewn ymddygiadau sy'n heriol neu'n tarfu ar eraill ers pandemig y coronafeirws (COVID-19)
- Y mathau o ymddygiad sy'n peri pryder i athrawon a gweithlu ysgolion
- Faint o gefnogaeth y mae athrawon ac eraill yn credu eu bod yn ei chael i ymdrin ag ymddygiad sy'n heriol neu'n tarfu ar eraill
- Rhyngweithio â rhieni

## 2. Methodoleg

2.1 Dyluniwyd a datblygwyd yr arolwg gan swyddogion polisi yn yr Is-adran Tegwch mewn Addysg mewn cydweithrediad â dadansoddwyr sy'n gweithio yn y Gangen Ymchwil Ysgolion yn Llywodraeth Cymru.

2.2 Dyluniwyd yr arolwg, a oedd yn cynnwys pum cwestiwn, gan ddefnyddio'r platfform SmartSurvey.

2.3 Rhannwyd yr arolwg drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Hwb[1] a chylchlythyr Dysg Llywodraeth Cymru[2].

2.4 Roedd yr arolwg yn agored am bythefnos a chaeodd ar 11 Ebrill 2025.

2.5 Cafwyd cyfanswm o 7,744 o ymatebion. Roedd hyn yn cynnwys 6,694 o ymatebion (86.1%) yn Saesneg a 1,080 (13.9%) o ymatebion yn Gymraeg.

# 3. Cyfyngiadau

3.1 Ni chynhwyswyd unrhyw gwestiynau am ddemograffeg wrth ddylunio'r arolwg. Mae hyn yn golygu na ellir dadansoddi ymatebion yn ôl daearyddiaeth, oedran, rhyw, rôl na hyd gwasanaeth yr ymatebwyr.

3.2 Gan mai sampl hunan-ddewisol oedd hwn o ran ymatebwyr, ni ellir penderfynu i ba raddau yr oedd yn cynrychioli gwahanol sectorau, neu nodweddion athrawon, ac mae'n bosibl y byddai ymarferwyr na wnaethant ymateb wedi rhoi atebion gwahanol.

3.3 Gofynnodd yr arolwg am bryderon ymatebwyr o ran eu hysgol neu leoliad. Gofynnwyd iddynt nodi a oeddent yn teimlo bod gwahanol ymddygiadau yn peri pryder mawr, pryder bach, ddim yn bryder neu gallent ddewis 'ddim yn gwybod'. Mae geiriad y cwestiwn hwn yn caniatáu rhywfaint o le i ddehongli. Gall ymatebwyr fod naill ai'n mynegi pryderon mwy cyffredinol neu'n nodi ymwybyddiaeth o achosion penodol sydd wedi digwydd neu sydd yn digwydd yn eu hysgol. Gall lefelau pryder hefyd gael eu heffeithio gan ddigwyddiadau y tu allan i amgylchedd eu hysgolion e.e. digwyddiadau sy'n cael sylw gan y cyfryngau. Mae angen ymchwiliad ansoddol pellach i ddarparu eglurder ynghylch y mater hwn.

3.4 Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth rhwng y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig a cholegau Addysg Bellach (AB). Roedd nifer yr ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig a cholegau AB yn llawer is na'r rhai sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac o ganlyniad mae hyder ystadegol yn is o ran eu hymatebion. Dylid cadw hyn mewn cof wrth gymharu'r canlyniadau ar draws lleoliadau.

3.5 Ni chynhwyswyd unrhyw flychau testun agored yn yr arolwg byr hwn. O ystyried lefel uchel y diddordeb yn y pwnc hwn, mae angen ymchwil ansoddol pellach er mwyn sefydlu'r rhesymeg y tu ôl i ymatebion.

# 4. Ymatebwyr

4.1 Mae Ffigur 1 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, lle roedd canran yr ymatebwyr bron yn gyfartal (cynradd - 46.5%, uwchradd - 44.9%).

4.2 Dim ond 4.9% o'r ymatebwyr sy'n gweithio mewn Ysgolion Pob Oedran[3].


4.3 Mae 'Arall' yn cynnwys y rhai sy'n gweithio mewn Ysgolion Arbennig (1.7%), Unedau Cyfeirio Disgyblion (1.3%), Chweched Dosbarth Ysgol (1.1%) a Cholegau AB (1.8%), ond heb ei gyfyngu iddynt.

[1] Mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau digidol dwyieithog drwy Hwb i bob ysgol a gynhelir er mwyn cefnogi addysgu a dysgu drwy'r Cwricwlwm i Gymru.

[2] Dysg yw e-gylchlythyr addysg swyddogol Lywodraeth Cymru. Nod Dysg yw darparu gwybodaeth am ddatblygiadau a'r newyddion diweddaraf ynghylch y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[3] Mae ysgol pob oedran yn darparu sawl cam o addysg plant o fewn un ysgol. Fel arfer, mae hyn yn golygu o oedran cynradd (Bl. 1 neu Dderbyn) trwy oedran ysgol uwchradd (Bl. 7-11) ac weithiau y tu hwnt.

**Ffigur 1: Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r ysgol/coleg rydych chi'n gweithio ynddi/ynddo? (n=7,766)**




Sylwer: cwestiwn aml-ddewis; Nid yw'r canrannau gyfwerth â 100%

# 5. Canfyddiadau

## Newidiadau mewn ymddygiadau sy'n herio ac yn tarfu ar eraill

5.1 Dywedodd bron pob ymatebydd fod amrywiaeth (94.3%), ystod (94.0%), maint (93.8%) ac amlder (95.4%) ymddygiadau heriol neu rai sy'n tarfu ar eraill wedi cynyddu ers y pandemig.

5.2 Cafwyd canlyniadau tebyg ar draws lleoliadau cynradd, uwchradd ac AB. Dywedodd llai nag 1% o'r ymatebwyr fod gostyngiad wedi bod ym mhob un o'r opsiynau ar gyfer ateb y cwestiwn hwn.

5.3 Ymhlith ymatebion gan ysgolion arbennig, roedd y ffigurau hyn ychydig yn is gydag 80% o'r ymatebwyr yn adrodd cynnydd yn ystod ac amrywiaeth ymddygiadau heriol neu rai sy'n tarfu ar eraill. Adroddodd tua thri chwarter o'r ymatebwyr gynnydd ym maint ymddygiadau o'r fath a nododd saith o bob deg ymatebydd eu bod yn digwydd yn amlach.


## Ymddygiadau sy'n peri pryder

5.4 Mae'r pryderon mwyaf cyffredin (pryderon difrifol a bach wedi'u cyfuno) a nodwyd gan ymatebwyr yn cynnwys tarfu ar eraill ar lefel gymharol isel e.e. anallu dysgwyr i ddilyn rheolau (97.5%), ateb yn ôl (96.9%) a disgyblion â phresenoldeb afreolaidd (96.7%) (gweler Ffigur 2).

5.5 Dywedodd tua wyth deg pedwar y cant o'r ymatebwyr fod trais a bwlio rhwng disgyblion yn achos pryder. Fodd bynnag, yn y ddau achos disgrifiodd mwyafrif bach o'r ymatebwyr hyn eu pryderon fel rhai bach yn hytrach na rhai difrifol. Adroddwyd bod trais a bwlio rhwng disgyblion yn 'bryder difrifol' gan 40.1% a 38.3% o'r ymatebwyr yn y drefn honno.

5.6 O gymharu, roedd ymatebwyr yn hyd yn oed yn llai tebygol o adrodd pryderon difrifol am gamddefnyddio sylweddau a disgyblion yn dod ag arfau i ysgolion. Enwyd y rhain yn byderon difrifol gan 14.2% a 14.0% o'r ymatebwyr yn y drefn honno.

## Ffigur 2: A fyddech chi'n disgrifio'r canlynol fel pryder difrifol neu fach yn eich ysgol/coleg? (n=7,772)





Sylwer: cwestiwn yr arolwg oedd, 'Sut fyddech chi'n disgrifio'r canlynol yn eich ysgol/coleg?' (n=7,772) a'r opsiynau ymateb oedd 'pryder difrifol', 'pryder bach', 'ddim yn bryder', 'ddim yn gwybod'.

5.7 Mae Ffigur 3 yn dangos cyfran yr ymatebwyr a adroddodd bryderon difrifol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Nododd cyfrannau uwch o'r ymatebwyr bryderon difrifol mewn ysgolion uwchradd mewn perthynas â'r holl bryderon a restrwyd, heblaw am ymosodiadau corfforol ar athrawon, lle nododd bron i hanner (47.7%) yr ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd fod hyn yn bryder difrifol o'i gymharu ag ychydig dros chwarter y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd (25.8%).


5.8 Mae'r pryderon difrifol â'r gwahaniaethau canrannol mwyaf rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynnwys peidio â dod chyfarpar priodol, ffonau symudol neu ddyfeisiau electronig cludadwy eraill yn tynnu sylw, a'r defnydd o e-sigaréts a fêps.

## Ffigur 3: Pryderon difrifol yn ôl ysgol




5.9 Fel y gwelir yn Ffigur 4 isod, roedd pryderon am arfau yn cael eu dwyn i'r ysgol ar eu huchaf ymhlith y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd. Dywedodd dros hanner (59%) o'r ymatebwyr hyn fod hwn yn bryder difrifol neu'n bryder bach o'i gymharu ag un o bob pump o ymatebwyr (20.9%) sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd.

## Ffigur 4: Ymatebwyr a nododd fod disgyblion yn dod ag arfau i'r ysgol fel pryder difrifol neu bryder bach yn ôl ysgol neu leoliad





5.10 Fel y gwelir yn y ffigur isod, nododd dros 70% o'r holl ymatebwyr fod ymosodiadau corfforol ar athrawon yn bryder difrifol neu'n bryder bach.

5.11 Ymhlith y rhai mewn ysgolion arbennig cododd y ffigwr hwn i 90.9% gyda 68.9% yn nodi ei fod yn 'bryder difrifol'.

5.12 Canfuwyd bod ymosodiadau corfforol ar athrawon yn bryder difrifol i bron i hanner (47.7%) o'r rhai sy'n gweithio mewn addysg gynradd o'i gymharu â thua chwarter (25.8%) y rhai mewn addysg uwchradd.

5.13 Roedd pryder o ran ymosodiadau corfforol ar athrawon ar ei isaf ymhlith y rhai sy'n gweithio mewn addysg bellach.


## Ffigur 5: Ymatebwyr a nododd ymosodiadau corfforol ar athrawon fel pryder difrifol neu fân yn ôl ysgol neu leoliad




5.14 Mae Ffigur 6 isod yn dangos bod bron i naw o bob deg ymatebydd (88.4%) sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd wedi adrodd pryder ynghylch trais rhwng disgyblion, gyda 40.9% yn ei al'n bryder 'difrifol'.

5.15 Mewn cymhariaeth, dywedodd ychydig o dan ddwy ran o bump (38.4%) o'r ymatebwyr mewn ysgolion cynradd fod trais rhwng disgyblion yn 'bryder difrifol' hefyd.

## Ffigur 6: Ymatebwyr a adroddodd am drais rhwng disgyblion fel pryder difrifol neu bryder bach yn ôl ysgol neu leoliad





5.16 Mae'r ffigur canlynol yn dangos bod ffonau symudol neu ddyfeisiau electronig cludadwy eraill yn tynnu sylw yn bryder mewn colegau AB ac ysgolion uwchradd yn bennaf (gweler Ffigur 7).

5.17 Adroddodd bron pob ymatebydd sy'n gweithio mewn colegau AB (98.5%) bryderon ynghylch ffonau symudol yn tynnu sylw. Dywedodd mwy na naw o bob deg (92.7%) fod eu pryderon yn 'ddifrifol'.

5.18 O fewn ysgolion uwchradd, roedd ffonau symudol a dyfeisiau eraill yn tynnu sylw yn bryder difrifol i dri chwarter (75.1%) o'r ymatebwyr, serch hynny, mae'r ffigur hwn yn gostwng i 17.0% yn y sector cynradd.

## Ffigur 7: Ymatebwyr a adroddodd fod ffonau symudol neu ddyfeisiau electronig cludadwy eraill yn bryder difrifol neu'n bryder bach yn ôl ysgol neu leoliad




## Cefnogaeth o ran ymddygiadau sy'n herio ac yn tarfu

5.19 Dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn teimlo'n nad ydynt yn cael fawr o gefnogaeth gan rieni (76.3%) na'u Hawdurdod Lleol (69.7%) wrth ymdrin ag ymddygiad sy'n herio a tharfu ar eraill.

5.20 Adroddwyd bod cefnogaeth yn fwy cyffredin o fewn ysgolion a lleoliadau yr ymatebwyr eu hunain, gyda 61.1% yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda o fewn yr amgylchedd hwnnw.

### Ffigur 8: Cefnogaeth wrth ymdrin ag ymddygiadau sy'n herio a tharfu ar eraill





Sylwer: Mae 'net: 'cefnogaeth wael' yn cynnwys y rhai a atebodd, 'cefnogaeth wael iawn' neu 'cefnogaeth eithaf gwael'. Mae 'net: cefnogaeth dda' yn cynnwys y rhai a ymatebodd, 'cefnogaeth weddol dda' neu 'cefnogaeth dda iawn'.

5.21 Roedd dros dri chwarter yr ymatebwyr sy'n gweithio yn y sectorau uwchradd (78.6%) a chynradd (75.3%) yn teimlo'n nad ydynt yn cael cefnogaeth dda gan rieni.

5.22 Ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig oedd fwyaf tebygol o deimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan rieni (39.7%) er bod dros hanner (55%) yr ymatebwyr yn y lleoliadau hyn yn dal i ddweud bod diffyg cefnogaeth.

## Ffigur 9: Cefnogaeth gan rieni yn ôl ysgol neu leoliad yr ymatebydd





Sylwer: Mae 'net: 'cefnogaeth wael' yn cynnwys y rhai a atebodd, 'cefnogaeth wael iawn' neu 'cefnogaeth eithaf gwael'. Mae 'net: cefnogaeth dda' yn cynnwys y rhai a ymatebodd, 'cefnogaeth weddol dda' neu 'cefnogaeth dda iawn'.

5.23 Ar draws yr holl ymatebwyr, roedd saith o bob deg (69.7%) yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth wael gan eu Hawdurdod Lleol.

5.24 Ymatebwyr o Ysgolion Arbennig oedd yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn cael cefnogaeth dda gan eu Hawdurdod Lleol er mai dim ond tua chwarter (26.0%) o'r ymatebion oedd hynny.

## Ffigur 10: Cefnogaeth gan Awdurdod Lleol yn ôl ysgol neu leoliad yr ymatebydd





Sylwer: Mae 'net: 'cefnogaeth wael' yn cynnwys y rhai a atebodd, 'cefnogaeth wael iawn' neu 'cefnogaeth eithaf gwael'. Mae 'net: cefnogaeth dda' yn cynnwys y rhai a ymatebodd, 'cefnogaeth weddol dda' neu 'cefnogaeth dda iawn'.

5.25 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth o fewn eu hysgolion neu lleoliadau gyda 61.1% o'r cyfanswm yn dweud eu bod yn cael 'cefnogaeth weddol dda' neu 'cefnogaeth dda iawn'.

5.26 Nododd y rhai sy'n gweithio mewn addysg gynradd lefelau uwch o gefnogaeth o fewn eu hysgolion wrth ymdrin ag ymddygiad heriol o'i gymharu â'r rhai yn y sector uwchradd (67.1 a 56.0% yn y drefn honno).

5.27 Ymatebwyr sy'n gweithio mewn colegau AB oedd yn teimlo'r lefelau isaf o gefnogaeth gan eu lleoliadau gyda dim ond dwy ran o bump (39.7%) yn dweud eu bod yn cael cefnogaeth dda (gweler Ffigur 11).

### Ffigur 11: Cymorth o fewn yr ysgol yn ôl lleoliad yr ymatebydd





Sylwer: Mae 'net: 'cefnogaeth wael' yn cynnwys y rhai a atebodd, 'cefnogaeth wael iawn' neu 'cefnogaeth eithaf gwael'. Mae 'net: cefnogaeth dda' yn cynnwys y rhai a ymatebodd, 'cefnogaeth weddol dda' neu 'cefnogaeth dda iawn'.

# Rhyngweithio â rhieni

5.28 Nododd dros hanner yr ymatebwyr (52.5%) ostyngiad yng nghyfran y rhyngweithiadau cadarnhaol â rhieni (gweler Ffigur 12).


5.29 Dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr (74.5%) fod cynnydd yng nghyfran y rhyngweithiadau â rhieni sy'n negyddol a nododd 71.9% fod dwyster y rhyngweithiadau negyddol wedi cynyddu (gweler Ffigur 12).

### Ffigur 12: Ydych chi wedi sylwi ar newidiadau i'r ffordd y mae rhieni yn rhyngweithio ag athrawon/rheolwyr/staff cymorth yr ysgol neu goleg ers pandemig COVID-19? (n=7,766)




5.30 Roedd cyfran yr ymatebwyr a adroddodd gynnydd yng nghyfran y rhyngweithiadau sy'n negyddol yn debyg ar draws colegau AB, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae'r gyfran uchaf o ymatebwyr a nododd gynnydd yn gweithio mewn ysgolion cynradd (76.3%). Y gyfran leiaf o ymatebwyr i adrodd cynnydd mewn rhyngweithiadau negyddol oedd y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion arbennig (47.3%) (Ffigur 13).

### Ffigur 13: Cyfran y rhyngweithiadau sy'n negyddol yn ôl ysgol neu leoliad



# 6. Casgliadau

6.1 Roedd nifer uchel yr ymatebion yn adlewyrchu awydd gan y gweithlu addysg i gymryd rhan a lleisio eu pryderon mewn perthynas ag ymddygiad sy'n herio a tharfu ar eraill.

6.2 Adroddodd bron pob ymatebydd gynnydd yn amrywiaeth, ystod, maint ac amlder ymddygiad sy'n herio a tharfu ar eraill ers pandemig COVID-19. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r pandemig fod wedi effeithio ar ymddygiad dysgwyr neu efallai wedi gwaethygu tueddiadau a oedd yno eisoes, sydd yn ei dro wedi arwain at darfu mwy aml ac amrywiol mewn lleoliadau ysgol.

6.3 Roedd y pryderon mwyaf cyffredin ymhlith ymatebwyr yn cynnwys tarfu ar eraill ar lefel isel fel dysgwyr yn ateb yn ôl, analluu i ddilyn rheolau, na chynnal presenoldeb rheolaidd. Mae'r ymddygiadau hyn, er nad ydynt mor ddifrifol ag ymosodiadau corfforol, yn dal i fod yn her sylweddol o ran cynnal amgylchedd dysgu ffafriol ac mae angen mesurau lliniaru effeithiol i wrthdroi'r duedd hon.

6.4 Adroddodd dros hanner yr ymatebwyr sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd bryderon ynghylch disgyblion yn dod ag arfau i'r ysgol. Er mai dim ond un o bob pump (19.5%) ddisgrifiodd y pryderon hyn fel rhai 'difrifol' mae hyn yn codi cwestiynau pwysig ynghylch diogelwch a thawelwch meddwl disgyblion a staff. Mae'r pryder hwn hefyd yn cael ei rannu gan y rhai sy'n gweithio mewn colegau AB lle mae mwy nag un o bob pump o ymatebwyr yn ei weld yn bryder difrifol (21.5%) ac mae mwy nag un o bob pedwar yn ei weld fel pryder bach (26.3%).

6.5 Disgrifiwyd ymosodiadau corfforol ar athrawon fel pryder difrifol gan bron i hanner (47.7%) y rhai sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd, gan dynnu sylw ymhellach at yr angen am fesurau effeithiol i amddiffyn athrawon a sicrhau eu lles. Er fod yr wybodaeth hon yn syfrdanol, mae angen gwneud rhagor o ymchwil i wella dealltwriaeth o ran i ba raddau y mae'r pryderon a fynegir yn cael eu gwaethygu gan ffactorau allanol sy'n cyfrannu atynt, fel sylw yn y cyfryngau.

6.6 Adroddodd bron i naw o bob deg ymatebydd (88.4%) sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd fod trais rhwng disgyblion yn peri pryder, fodd bynnag, i tua hanner y rheini (47.5%) ystyriwyd bod hyn yn bryder bach yn hytrach nag yn bryder difrifol.

6.7 Er bod aflonyddwch lefel isel yn eang ac yn peri heriau i'r amgylchedd dysgu, mae pryderon lefel uwch fel trais ac ymosodiadau corfforol, er eu bod yn llai cyffredin, yn gofyn am ymyriadau wedi'u targedu i sicrhau diogelwch a lles disgyblion a staff.

6.8 Roedd ffonau symudol neu ddyfeisiau electronig cludadwy eraill yn tynnu sylw yn bryder yn bennaf mewn colegau AB ac ysgolion uwchradd, er bod y ffigurau hefyd yn awgrymu bod hyn yn fater sy'n dechrau codi ei ben mewn ysgolion cynradd. Mae angen ystyried sut y gellir rheoli'r technolegau hyn yn effeithiol mewn ysgolion a lleoliadau.

6.9 Dywedodd ymatebwyr eu bod yn teimlo mai cefnogaeth wael yr oeddent yn ei chael wrth ddelio ag ymddygiad sy'n herio a tharfu ar eraill, yn enwedig gan rieni a'u Hawdurdod Lleol. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwell systemau cymorth a mwy o gydweithrediad rhwng ysgolion, awdurdodau lleol, a rhieni.

6.10 Adroddodd bron i dri chwarter yr ymatebwyr gynnydd yn y cyfrannau o ryngweithiadau negyddol â rhieni. Nododd dros 70% ohonynt gynnydd yn nwyster y rhyngweithiadau hyn. Mae hyn yn dangos dirywiad sylweddol yn y berthynas rhwng ysgolion a rhieni ers y pandemig. Mae angen rhagor o waith ymchwil i wella dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y mater hwn a nodi mentrau effeithiol i atgyweirio ac ailadeiladu cydberthnasoedd. llwyddiannus.

6.11 Mae'r casgliadau hyn yn tynnu sylw at yr angen i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r cynnydd mewn ymddygiadau heriol, gwella systemau cymorth i athrawon, a meithrin rhyngweithiadau cadarnhaol rhwng ysgolion a rhieni.

Awdur y bwletin: Charlotte Eales a Claire Griffiths, Llywodraeth Cymru.

Mae’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i’r ymchwilwyr ac nid i Lywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Y Gangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Rhif ffôn: 03000256812
E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-694-8